PUGH, JOHN (1846 - 1907), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a sylfaenydd ac arolygydd cyntaf y Symudiad Ymosodol

Enw: John Pugh
Dyddiad geni: 1846
Dyddiad marw: 1907
Priod: Marie Pugh (née Watkins)
Rhiant: Ann Pugh
Rhiant: John Pugh
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a sylfaenydd ac arolygydd cyntaf y Symudiad Ymosodol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Ieuan Phillips

Ganwyd yn New Mills, Sir Drefaldwyn, 29 Ionawr 1846, mab John Pugh, ymgymerwr, ac Ann. Symudodd y teulu i Ddinbych-y-pysgod, Sir Benfro, yn 1860. Bu Pugh yng ngholeg diwinyddol Trefeca, 1869-72, ac ordeiniwyd ef yng nghymdeithasfa Abertawe, 1872. Bu'n weinidog yn eglwysi Saesneg (1) Tredegar, 1872-81; (2) Pontypridd, 1881-9; (3) Clifton Street, Caerdydd, 1889-92. Priodod Marie Watkins, Pentre Farm, Raglan, yng nghapel Zion Street (B.), Abergavenny, 1875. Cychwynnodd waith cenhadol ymhlith y Saeson yn Splott, Caerdydd, 1891. Derbyniwyd yr ymgyrch hwn fel rhan swyddogol a pharhaol yr eglwys yng nghymanfa gyffredinol Machynlleth, 1892, a galwyd John Pugh i ofal eglwys Clifton Street (Caerdydd) i fod yr arolygydd cyntaf arno. Etholwyd ef yn llywydd y gymdeithasfa yn y Deau, 1906. Bu farw Sul y Blodau, 24 Mawrth 1907. Cychwynnwyd 48 o neuaddau yn ystod ei arolygiaeth, a chartref i ferched diymgeledd ('Kingswood Treborth Home') yng Nghaerdydd. Er rhoddi cyhoeddusrwydd i'r gwaith cyhoeddodd fisolyn, ac efe oedd y prif olygydd am flynyddoedd - *The Christian Standard*, 1891-3; *The Forward Movement Herald*, 1897; *The Forward Movement Torch*, 1899-1904.

Awdur

Y Parchedig Ieuan Phillips, (1897 - 1969)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Adgofion am John Pugh (Llandysul 1944), gan ei ferch, Mrs. W. Watkin Williams (Llandyssul)

J.M. Jones ac Abraham Morris, *Hanes symudiad ymosodol y Methodistiaid Calfinaidd* (Caernarfon 1931), 1931

Howell Williams (Dinbych), *The Romance of the Forward Movement of the Presbyterian Church of Wales* (Dinbych 1949)

(Darlith Davies)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 74967847

Wikidata: Q20804725

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu